WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Datganiad o gyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r cyrff a archwilir ganddo (2008)

Cynnwys

Diben y datganiad hwn	3
Amlinelliad o'r cyfrifoldebau	4
Archwilio'r datganiadau cyfrifyddu	5
Cyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu yn electronig	7
Archwilio Ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan	7
Cyfrifoldebau mewn perthynas â threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau	8
Cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau gwaith archwilio	11
Ceisiadau ad hoc am farn archwilwyr	13
Hawl i weld gwybodaeth	14
Hawliadau a ffurflenni grant – ardystio	14
Deddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998	15
Archwilio cronfeydd elusennol	15

Diben y datganiad hwn

1. Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y datganiadau cyfrifyddu a lunnir gan gyrff lleol GIG Cymru, Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad) (gan gynnwys cyfrifon cryno GIG Cymru) ac amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus eraill a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad neu sy'n gysylltiedig â hi. Ceir rhai cyfrifon hefyd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol arnynt drwy gytundeb, yn hytrach na thrwy statud. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am lunio *Cod Ymarfer Archwilio ac Arolygu* (y *Cod*), sy'n rhagnodi'r ffordd y disgwylir i archwilwyr gyflawni eu swyddogaethau.
2. Mae'r Datganiad hwn yn nodi canllawiau ar gyfrifoldebau cyffredinol sy'n berthnasol i archwiliadau a archwilir gan yr Archwilydd Cyffredinol fel yr archwilydd statudol ac felly mae'n ategu'r *Cod*. Lluniwyd Datganiad o Gyfrifoldebau ar wahân i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn penodi archwilwyr allanol iddynt. Mae'r datganiadau ar wahân yn adlewyrchu'r gwahaniaethau cyfansoddiadol rhwng cyrff llywodraeth leol a'r cyrff eraill sy'n rhan o gylch gwaith yr Archwilydd Cyffredinol. Fodd bynnag, mae'r Datganiad hwn yn adlewyrchu'r darpariaethau statudol hynny sy'n berthnasol i archwiliadau o gyrff llywodraeth leol a fabwysiadwyd hefyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn wirfoddol, ar gyfer archwiliadau o gyrff lleol GIG lleol a chyrff llywodraeth ganolog.
3. Diben y Datganiad hwn yw cynorthwyo cyrff a archwilir drwy grynhoi yma – yng nghyd-destun y broses arferol o gynnal archwiliad – ble mae gwahanol gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol a'r corff sy'n cael ei archwilio yn dechrau ac yn gorffen, a'r hyn a ddisgwylir gan y corff a archwilir mewn rhai meysydd. Yn y Datganiad hwn, mae'r term 'corff' yn cynnwys aelodau'r corff sy'n cael ei archwilio (er enghraifft, cyfarwyddwyr anweithredol cyrff y GIG a byrddau penodedig neu'r swyddogion sy'n cyfateb iddynt mewn cyrff eraill) a'i reolwyr (uwch swyddogion y corff).
4. Mae'r term 'archwilwyr' a ddefnyddir yn y datganiad yn cyfeirio at staff archwilio (aelodau o staff Swyddfa Archwilio Cymru neu staff cwmnïau cyfrifwyr preifat o dan gontract i'r Archwilydd Cyffredinol) sy'n gweithio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. 'Swyddogion Cyfrifyddu a Swyddogion Atebol' yw'r uwch swyddogion yn Llywodraeth y Cynulliad, ei chyrff cyhoeddus cysylltiedig a chyrff GIG Cymru sy'n cymryd cyfrifoldeb personol am y cyllid a roddir yn eu gofal. Mae'r cyfrifoldebau yn cynnwys yr angen i sicrhau rheolaeth ariannol briodol, rheoleidd-dra a phriodoldeb a gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

5. Diffinnir swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol yn y statudau perthnasol sy'n ymdrin ag archwiliadau unigol. Rhagnodir y modd y dylai archwilwyr gyflawni'r swyddogaethau hynny yn y *Cod,* a fabwysiadwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn wirfoddol. Ni fwriedir i ddim yn y Datganiad hwn gyfyngu ar y cyfrifoldebau hynny na'u hymestyn. Yn benodol, dylai cyrff a archwilir nodi, am na ddylai'r Archwilydd Cyffredinol beryglu ei annibyniaeth ar y corff a archwilir, nad yw'r rôl archwilio yn cynnwys rhoi cyngor ariannol na chyfreithiol na gwasanaeth ymgynghori i'r corff.
6. Efallai y bydd archwilwyr sy'n gweithio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol am gyfeirio at y Datganiad hwn mewn dogfennau archwilio, llythyrau archwilio blynyddol, adroddiadau ac allbynnau archwilio eraill a'i ymgorffori ynddynt.

Amlinelliad o'r cyfrifoldebau

7. Mae'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal busnes cyhoeddus ac am wario arian cyhoeddus yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir y busnes cyhoeddus hwnnw yn unol â'r gyfraith a safonau cywir, ac y diogelir arian cyhoeddus ac y cyfrifir amdano'n gywir, a'i fod yn cael ei ddefnyddio yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
8. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae cyrff cyhoeddus a'u rheolwyr (aelodau a swyddogion) yn gyfrifol am roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli eu materion ac am stiwardiaeth yr adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae hefyd yn ofynnol iddynt gyflwyno adroddiadau ar y trefniadau hyn yn eu datganiad blynyddol cyhoeddedig sy'n ymwneud â'u hadolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol (Datganiad Llywodraethu neu Ddatganiad am Reolaeth Fewnol).
9. Cyfrifoldeb y corff yw sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith, ond mae gan rai unigolion gyfrifoldebau penodol. Yng nghyrff y GIG mae bwrdd unedol, sy'n cynnwys aelodau gweithredol ac aelodau anweithredol rhan amser, a gadeirir gan aelod anweithredol. Mae prif weithredwyr y cyfryw gyrff yn atebol i'w byrddau a Llywodraeth y Cynulliad am reoli eu sefydliad o ddydd i ddydd, ond, fel Swyddogion Atebol, maent yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Senedd am stiwardio arian ac asedau cyhoeddus yn briodol. Mae gan Ysgrifennydd Parhaol y Cynulliad Cenedlaethol, fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, a Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldebau tebyg o ran stiwardiaeth ac maent yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Senedd.
10. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau efallai y bydd yr Archwilydd Cyffredinol am gael sylwadau gan reolwyr, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ar faterion pwysig.
11. Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi priod gyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol a'r cyrff a archwilir ganddo.

Archwilio'r datganiadau cyfrifyddu

Cyfrifoldebau cyrff a archwilir

12. Mae'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys cyfrifon blynyddol y corff, yn ffordd hanfodol o roi cyfrif am y modd y mae'r corff hwnnw'n gwarchod yr adnoddau sydd ar gael iddo a'i berfformiad ariannol wrth ddefnyddio'r adnoddau hynny. Cyfrifoldeb y corff a archwilir yw:
    - rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith er mwyn sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion;
    - cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
    - llunio datganiadau cyfrifyddu erbyn y terfyn amser statudol neu'r terfyn amser y cytunwyd arno sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y corff a'i wariant a'i incwm.
13. Mae'r corff hefyd yn gyfrifol am lunio Datganiad Llywodraethu neu Ddatganiad am Reolaeth Fewnol a'i gyhoeddi gyda'i ddatganiadau cyfrifyddu.
14. Wrth lunio eu datganiadau cyfrifyddu mae cyrff yn gyfrifol am:
    - baratoi cynlluniau realistig ar gyfer llunio'r datganiadau sy'n cynnwys targedau clir ac amserlenni ymarferol;
    - pennu cyfrifoldebau yn glir i staff sy'n meddu ar yr arbenigedd a'r profiad priodol;
    - darparu'r adnoddau sydd eu hangen i alluogi cyflawni'r cynllun;
    - cadw dogfennaeth ddigonol i ategu'r datganiadau cyfrifyddu ac, ar ddechrau'r archwiliad, darparu set gyflawn o bapurau gwaith sy'n rhoi esboniad digonol o'r cofnodion yn y datganiadau cyfrifyddu hynny;
    - sicrhau bod uwch reolwyr yn monitro, yn goruchwylio ac yn adolygu gwaith i gyrraedd safonau a therfynau amser y cytunwyd arnynt;
    - sicrhau bod un o'r uwch reolwyr yn adolygu ac yn cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu ei hun cyn eu cyflwyno i'r archwilydd.
15. Os na fydd datganiadau cyfrifyddu na phapurau gwaith drafft o safon briodol ar gael ar y dyddiad y cytunwyd arno ar gyfer dechrau'r archwiliad, efallai na fydd yr archwilydd yn gallu dechrau'r archwiliad fel y bwriadwyd ac, o ganlyniad, efallai na fydd yn gallu cwrdd â'r amserlen y cytunwyd arni ar gyfer yr archwiliad. Cyfrifir y ffi archwilio ar y sail bod y datganiadau cyfrifyddu a'r papurau gwaith drafft yn cael eu cyflwyno yn unol ag amserlen y cytunwyd arni a'u bod o safon dderbyniol. Os na roddir gwybodaeth yn unol â'r amserlen hon, neu os bydd y wybodaeth a roddir o safon annerbyniol, bydd yr archwilydd yn codi ffioedd ychwanegol am unrhyw waith ychwanegol sydd ei angen.

Cyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru

16. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am:
    - roi barn yn nodi a yw'r datganiadau cyfrifyddu yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddiadau perthnasol;
    - cyflwyno adroddiad yn nodi a luniwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth sydd i'w harchwilio yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddiadau perthnasol;
    - yn achos cyrff llywodraeth ganolog yn unig, cyflwyno adroddiad yn nodi a yw gwaith penodol sy'n cynnwys sylwadaeth y rheolwyr a gwybodaeth 'adroddiad y cyfarwyddwyr' yn yr Adroddiad Blynyddol (neu Adroddiad yr Ymddiriedolwyr), yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu.
17. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn rhoi gwybod os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, yn ei farn ef, neu os na chaiff yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen ar gyfer yr archwiliad ac os oes unrhyw wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n anghyson â'r datganiadau cyfrifyddu.
18. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn rhoi barn yn nodi a wariwyd arian yn gyfreithlon yn unol â'r awdurdod sy'n ei reoli ac at y dibenion a fwriadwyd. Nid yw hyn yn golygu cynnal profion manwl ar drafodion i'r graddau a fyddai'n angenrheidiol i ddatgelu pob trafodyn anghyfreithlon neu afreolaidd neu bethau a all fod wedi digwydd neu a allai ddigwydd, ac ni ddylid dibynnu ar y broses archwilio i ddatgelu pob mater o'r fath.
19. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ei archwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd a bydd yn cynnwys y cyfryw brofion o ran rheoleidd-dra trafodion a bodolaeth, cyflawnder, perchenogaeth a phrisiad asedau a rhwymedigaethau ag sy'n angenrheidiol yn ei farn ef.
20. Mae archwilwyr yn archwilio trafodion a balansau a ddetholwyd ar sail prawf ac yn asesu'r amcangyfrifon a'r penderfyniadau pwysig a wnaed gan y corff a archwilir wrth lunio'r datganiadau cyfrifyddu.
21. Wrth gynnal eu harchwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu, bydd archwilwyr yn rhoi sylw i gysyniad perthnasedd. Yn ddarostyngedig i'r cysyniad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi sicrwydd rhesymol:
    - nad oes camddatganiad perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu, boed hynny drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu wall arall; a bod y datganiadau cyfrifyddu
    - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a'r gofynion cymwys eraill;
    - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
22. Gall archwilwyr werthuso systemau ariannol sylweddol, a'r rheolaethau ariannol mewnol cysylltiedig, er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol roi ei farn ar y datganiadau cyfrifyddu. Pan fydd archwilwyr yn nodi unrhyw wendidau yn y cyfryw systemau a rheolaethau, byddant yn tynnu sylw'r corff a archwilir atynt, ond ni ellir disgwyl iddynt nodi pob gwendid a all fodoli.

23. Mae archwilwyr yn adolygu a gafodd y Datganiad Llywodraethu neu'r Datganiad am Reolaeth Fewnol ei gyflwyno yn unol â'r gofynion perthnasol ac mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi gwybod os nad yw'n bodloni'r gofynion hyn neu os yw'r Datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall y mae'r archwilwyr yn gwybod amdani. Wrth wneud hynny mae archwilwyr yn ystyried y wybodaeth am y corff a archwilir a gafwyd drwy eu gwaith mewn perthynas â'r archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu. Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried a yw'r datganiad am reolaeth fewnol yn cwmpasu'r holl risgiau a rheolaethau, na llunio barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y corff na'i weithdrefnau risg a rheoli.

24. Wrth wneud eu gwaith ar y datganiadau cyfrifyddu, bydd archwilwyr yn:

- cynllunio i gwblhau gwaith a chwrdd â therfynau amser y cytunwyd arnynt;
- cadw mewn cysylltiad agos â'r corff a archwilir;
- rhoi adnoddau priodol a digonol a phennu cyfrifoldebau i staff sy'n meddu ar yr arbenigedd a'r profiad perthnasol.

Cyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu yn electronig

25. Pan fydd y corff a archwilir am gyhoeddi ei ddatganiadau cyfrifyddu yn electronig, mae'n gyfrifol am sicrhau bod y cyhoeddiad yn cyflwyno'r datganiadau cyfrifyddu ac adroddiad yr archwilydd ar y datganiadau cyfrifyddu hynny yn gywir. Mae'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn berthnasol i gyflwyno unrhyw wybodaeth ariannol a gyhoeddwyd o ran cyfnodau blaenorol. Os bydd y corff a archwilir am ddosbarthu copïau electronig o'r datganiadau cyfrifyddu ac adroddiad yr archwilydd ar y datganiadau cyfrifyddu i'w randdeiliaid, mae'n rhaid iddo sicrhau eu bod yn cael eu cyflwyno'n gywir. Ni ddylid atgynhyrchu adroddiad yr archwilydd ar y datganiadau cyfrifyddu na chyfeirio ato yn electronig heb ganiatâd ysgrifenedig yr archwilydd. Mae archwilio'r rheolaethau dros gyhoeddi datganiadau cyfrifyddu archwiliedig yn electronig y tu hwnt i gwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu. Ni ellir dal yr archwilydd yn gyfrifol am newidiadau a wnaed i'r datganiadau cyfrifyddu ac adroddiad yr archwilydd ar ôl y cyhoeddiad cyntaf.

Archwilio Ffurflenni Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

26. Sefydlodd Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 Gyfrifon y Llywodraeth Gyfan (WGA), gan gyfuno cyfrifon cyrff sector cyhoeddus y DU o dan arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol.

Cyfrifoldebau cyrff a archwilir ac a arolygir

27. Er mwyn cynorthwyo'r broses gyfuno, mae angen i gyrff gwblhau Pecynnau Cyfuno a'u cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad a fydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:
    - balans prawf ar gyfer y corff dynodedig gan ddefnyddio Siart Cyfrifon Safonol y Trysorlys (SCOA);
    - dadansoddiad o ffigurau cymharol y flwyddyn flaenorol;
    - Datganiad Llif Arian Parod;
    - eitemau memorandwm megis nifer y staff, ymrwymiadau prydlesau;
    - dadansoddiad o drafodion a balansau rhwng grwpiau sy'n fwy nag £1filiwn;
    - gwybodaeth ychwanegol am ddatgeliadau ar Fentrau Cyllid Preifat, hapddigwyddiadau, natur darpariaethau, digwyddiadau ôl-fantolen ac ati;
    - rhestr o bob trafodyn a balans â chyrff eraill Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan sy'n fwy nag £1filiwn, gan ddefnyddio codau Dynodi Gwrthbartïon (CPID).

28. At hynny mae angen i gyrff a archwilir gytuno'n ffurfiol ar unrhyw ffrydiau trafodion a balansau â chyrff eraill Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan sy'n fwy na £5 miliwn.

Cyfrifoldebau archwilwyr ac arolygwyr

29. Bydd archwilwyr yn archwilio'r Pecyn Cyfuno erbyn y terfyn amser y cytunwyd arno ac yn rhoi eu barn ar y canlynol:
    - cysondeb y Pecyn Cyfuno â'r cyfrifon archwiliedig statudol;
    - a nodwyd yr holl ffrydiau trafodion a balansau perthnasol â chyrff eraill Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan.
30. Mae'n ofynnol i archwilwyr gyflwyno'r Pecyn Cyfuno ynghyd ag addasiadau archwilio a nodwyd a'u barn ar ffurf Holiadur Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan i dîm Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan Swyddfa Archwilio Cymru i'w hystyried ymhellach yn y broses gyfuno.

Cyfrifoldebau mewn perthynas â threfniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau

Cyfrifoldebau cyrff a archwilir

31. Cyfrifoldeb y corff yw rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, ac i sicrhau stiwardiaeth a llywodraethu priodol. Mae'r corff hefyd yn gyfrifol am adolygu digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn yn rheolaidd. Mae'r corff yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad ar y trefniadau hyn fel rhan o'i Ddatganiad Llywodraethu blynyddol.

Cyfrifoldebau Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyrff lleol y GIG

32. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol gyfrifoldeb i'w fodloni ei hun bod corff lleol y GIG wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn dylai archwilwyr adolygu a, lle y bo'n briodol, archwilio tystiolaeth sy'n berthnasol i fodolaeth (ond nid effeithiolrwydd o dan y maes gwaith hwn) drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol y corff, fel a ganlyn, a bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiad ar y trefniadau hyn:

- pennu amcanion strategol a gweithredol a monitro'r gwaith o'u cyflawni;
- prosesau gwneud polisi a phenderfyniadau'r corff;
- trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau yn diwallu anghenion defnyddwyr a threthdalwyr ac ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ehangach;
- trefniadau i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig;
- nodi, gwerthuso a rheoli risgiau a chyfleoedd gweithredol ac ariannol, yn cynnwys y rhai sy'n codi o fod yn rhan o bartneriaethau a mathau eraill o gydweithio neu gontractio;
- y trefniadau ar gyfer rheoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill, gan gynnwys y rhai i ddiogelu sefyllfa ariannol y corff;
- fframwaith y corff ar gyfer monitro ac adolygu perfformiad, gan gynnwys trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd data;
- y trefniadau ar gyfer sicrhau bod materion y corff yn cael eu rheoli yn unol â safonau ymddygiad ariannol priodol, ac ar gyfer atal a chanfod twyll a llygredd.

33. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar y casgliad y mae wedi dod iddo, gan ystyried meini prawf perthnasol a nodir ganddo, ynglŷn ag a yw'r corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnyddio o adnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn y Llythyr Archwilio Blynyddol unrhyw faterion pwysig sydd wedi dod i'w sylw sy'n ei atal rhag dod i'r casgliad bod y corff a archwilir wedi rhoi trefniadau priodol ar waith. Fodd bynnag, nid oes angen i archwilwyr sy'n gweithio ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ystyried a yw pob agwedd ar drefniadau'r corff a archwilir ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau yn effeithiol.

34. Wrth gynllunio eu gwaith archwilio mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, mae archwilwyr yn ystyried ac yn asesu'r risgiau busnes sylweddol perthnasol. Dyma'r risgiau gweithredol ac ariannol sylweddol sy'n gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau statudol ac amcanion y corff sy'n berthnasol i gyfrifoldebau archwilwyr o dan y *Cod*. Ymhlith y cyfryw risgiau mae'r graddau y mae trefniadau llywodraethu corfforaethol da ar waith, maint a chymhlethdod gweithrediadau'r corff a archwilir, amgylchiadau lleol a pherfformiad yn y gorffennol o ran cyflawni targedau gweithredol ac ariannol. Mae archwilwyr yn ystyried ac yn asesu'r trefniadau y mae'r corff wedi'u rhoi ar waith i reoli'r risgiau hyn. Mae asesiad yr archwilydd o'r hyn sy'n sylweddol yn fater o farn broffesiynol ac mae'n cynnwys ystyried agweddau meintiol ac ansoddol yr eitem neu'r pwnc dan sylw. Mae archwilwyr yn trafod eu hasesiad risg a'r cyfle sydd i wella trefniadau gyda'r corff. Mae'r ffi archwilio yn adlewyrchu asesiad risg yr archwilydd.

35. Wrth asesu risg mae archwilwyr yn ystyried:

- perthnasedd a phwysigrwydd y risgiau busnes posibl a wynebir gan bob corff o fath penodol;
- risgiau eraill sy'n ymwneud yn benodol â chyrff unigol;
- asesiad y corff ei hun o'r risgiau a wynebir ganddo;
- y trefniadau a roddwyd ar waith gan y corff ar gyfer rheoli ei risgiau a mynd i'r afael â hwy.

36. Wrth asesu risgiau mae archwilwyr yn ystyried tystiolaeth a gafwyd o waith archwilio blaenorol gan gynnwys ymateb y corff i argymhellion archwiliadau blaenorol.

37. Pan fydd archwilwyr yn dewis dibynnu ar adroddiadau arolygiaethau statudol fel tystiolaeth sy'n berthnasol i drefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a rheoli ariannol y corff, mae'r arolygiaeth neu'r asiantaeth adolygu berthnasol yn dal i fod yn gyfrifol am y casgliadau a'r dyfarniadau yn y cyfryw adroddiadau.

38. Wrth adolygu trefniadau'r corff ar gyfer defnyddio ei adnoddau, nid yw'n rhan o swyddogaethau archwilwyr i amau rhinweddau amcanion polisi'r corff, ond efallai y bydd archwilwyr yn archwilio'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau polisi ac yn ystyried effeithiau prosesau gweithredu polisi. Cyfrifoldeb y corff yw penderfynu a ddylid gweithredu unrhyw argymhellion a wnaed gan archwilwyr a sut y dylid gwneud hynny ac, wrth wneud unrhyw argymhellion, dylai archwilwyr osgoi rhoi'r argraff eu bod yn cymryd unrhyw ran yn nhrefniadau gwneud penderfyniadau'r corff.

39. Er y gall archwilwyr adolygu trefniadau cyrff a archwilir ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau, nid eu rôl hwy yw nodi pob gwendid na phob cyfle i wella. Dylai cyrff a archwilir ystyried casgliadau ac argymhellion archwilwyr yn eu cyd-destun gweithredol ehangach neu mewn cyd-destun perthnasol arall.

Pob Corff

40. Nid yw gwaith archwilio mewn perthynas â threfniadau'r corff a archwilir ar gyfer sicrhau bod eu materion yn cael eu rheoli yn unol â safonau ymddygiad ariannol priodol, ac ar gyfer atal twyll a llygredd yn dileu'r posibilrwydd bod achosion o dorri safonau ymddygiad ariannol, neu dwyll a llygredd, wedi digwydd ac nad ydynt wedi cael eu datgelu. Ac nid yw'r archwilydd yn gyfrifol am atal na datgelu achosion o dorri safonau ymddygiad ariannol priodol, na thwyll a llygredd, er y bydd yn effro i'r posibilrwydd a bydd yn gweithredu'n ddi-oed os bydd ganddo reswm dros amau bod rhywbeth wedi digwydd.

41. Rhagnodir gwaith sy'n gysylltiedig ag astudiaethau'r Archwilydd Cyffredinol, a'r graddau y mae angen i archwilwyr wneud y cyfryw waith mewn cyrff perthnasol, gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n hysbysu cyrff ohono bob blwyddyn yn ei raglen waith flynyddol a chan archwilwyr yn eu dogfennau cynllunio archwiliad. Wrth gynnal astudiaethau cenedlaethol, mae'n ofynnol i archwilwyr ddilyn y methodolegau, ac, fel y bo'n briodol, ddefnyddio data cymharol, a ddarperir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am ddigonolrwydd a phriodoldeb y methodolegau hyn a'r data.

Cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau gwaith archwilio

Tystysgrif ac adroddiad archwilio'r Archwilydd Cyffredinol

42. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi tystysgrif ac adroddiad archwilio wedi'u cyfeirio at y Cynulliad Cenedlaethol sy'n cynnwys ei **farn** ar y datganiadau cyfrifyddu.

43. Wrth lunio ei dystysgrif a'i adroddiad archwilio mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ystyried y materion canlynol a bydd yn cyflwyno adroddiad ar unrhyw un o'r rhain nad yw'n fodlon arno:

- a luniwyd y Datganiad Llywodraethu neu'r Datganiad am Reolaeth Fewnol yn unol â gofynion y Trysorlys ac nad yw'n gamarweiniol, nac yn anghyson â gwybodaeth yr archwilydd am y corff a archwilir;
- a yw cofnodion cyfrifyddu cywir wedi'u cadw gan y corff a archwilir, a bod ffurflenni cywir sy'n ddigonol ar gyfer yr archwiliad wedi'u derbyn gan unrhyw drydydd partïon;
- a yw systemau rheolaeth fewnol effeithiol ar waith;
- a yw datganiadau cyfrifyddu'r corff a archwilir yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni;
- a yw'r archwilwyr wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen at ddibenion eu harchwiliad, yn eu barn hwy;
- a yw'r wybodaeth a roddwyd mewn adroddiad y mae'r datganiadau cyfrifyddu yn rhan ohono, megis Adroddiad Blynyddol y corff a archwilir, yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu.

44. Yn ogystal â'r materion a restrwyd uchod, ceir materion eraill y gellir ymdrin â hwy, yn ôl yr amgylchiadau, yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Gallai'r cyfryw faterion gynnwys achosion lle nad yw'r datganiadau cyfrifyddu yn rhoi manylion enillion aelodau'r Bwrdd na manylion trafodion eraill y mae'n ofynnol eu rhoi yn ôl y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys neu Weinidogion Cymru.

45. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am roi gwybod os nad yw'r datganiadau cyfrifyddu yn cydymffurfio mewn unrhyw ffordd berthnasol â Safonau Cyfrifyddu i'r graddau y maent yn berthnasol i amgylchiadau'r corff a archwilir oni bai bod cyfiawnhad dros beidio â chydymffurfio â hwy, yn ei farn ef. Wrth benderfynu p'un a oes cyfiawnhad dros wyro ai peidio mae'n ystyried:

- a oes angen gwyro oddi wrth y safonau er mwyn i'r datganiadau cyfrifyddu roi darlun cywir a theg;
- a oes unrhyw wyro a fu oddi wrth y safonau wedi'u datgelu'n ddigonol yn y datganiadau cyfrifyddu.

46. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gyfrifol am gynnwys yn ei adroddiad ddisgrifiad o gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr o ran y datganiadau cyfrifyddu lle nad yw'r datganiadau cyfrifyddu na'r wybodaeth gysylltiedig yn cynnwys y cyfryw ddisgrifiad.

47. At hynny, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyhoeddi adroddiad yn ymdrin ag unrhyw fater y mae o'r farn bod angen ei godi er budd y cyhoedd o dan baragraff 19 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Gall yr angen am y cyfryw adroddiad godi unrhyw bryd yn ystod y broses archwilio.

Cyflwyno adroddiadau archwilio i reolwyr neu'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu

48. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cyflwyno:

- dogfen cynllunio archwiliad;
- adroddiadau neu femoranda llafar a/neu ysgrifenedig i swyddogion a, lle y bo'n briodol, aelodau, ar ganlyniadau agweddau penodol ar waith archwilio neu faterion sy'n codi ohonynt;
- adroddiad i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu yn crynhoi gwaith yr archwilydd;
- llythyr archwilio blynyddol *(cyrff lleol y GIG);*
- Llythyr Rheoli *(cyrff llywodraeth ganolog).*

49. Wrth ystyried pa gamau y dylid eu cymryd o ran adroddiadau archwilio, dylai cyrff a archwilir gofio cwmpas yr archwiliad a chyfrifoldebau archwilwyr, fel y'u nodir yn y *Cod* ac fel y'u hesbonnir ymhellach yn y datganiad hwn. Daw materion a godir gan archwilwyr o'r rhai sy'n dod i'w sylw yn ystod yr archwiliad. Ni ellir dibynnu ar yr archwiliad i ddod o hyd i bob gwall, gwendid neu gyfle i wella trefniadau rheoli a all fodoli. Dylai cyrff asesu goblygiadau ehangach casgliadau ac argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol cyn penderfynu a ddylent eu derbyn neu eu gweithredu.

50. Er y gall llythyrau archwilio blynyddol (ac adroddiadau nas cyhoeddwyd) fod wedi'u cyfeirio at swyddogion y corff, fe'u llunnir at ddefnydd y cyngor lleol yn unig. Nid oes gan archwilwyr gyfrifoldebau i swyddogion nac i aelodau fel unigolion nac i drydydd partïon sy'n dewis dibynnu ar yr adroddiadau gan archwilwyr.

Adroddiadau sicrwydd ychwanegol ar gyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad

51. Yn ogystal â mynegi barn ar y cyfrifon blynyddol, bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cyflwyno adroddiad ar wahân i'r corff a noddir a Llywodraeth y Cynulliad, ar gais, ar y modd y mae'r corff wedi:
    - gweithredu systemau rheolaeth effeithiol;
    - sefydlu trefniadau archwilio mewnol a pha mor ddigonol oedd cwmpas, natur ac effeithiolrwydd y gwaith a wnaed;
    - cydymffurfio â gofynion a nodwyd yn y Memorandwm Ariannol, y Datganiad Rheoli ac unrhyw ganllawiau eraill a roddwyd i'r corff gan Lywodraeth y Cynulliad;
    - ymdrin â materion pwysig a nodwyd mewn archwiliadau blaenorol.
52. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adolygu'r canlynol ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt, yn ôl yr angen:
    - unrhyw golledion oherwydd camymddygiad, twyll neu afreoleidd-dra arall, a ganfyddir yn ystod yr archwiliad neu sydd wedi'u datgelu gan reolwyr; ac a yw penderfyniadau i ddileu colledion neu wneud taliadau arbennig wedi'u cofnodi'n gywir;
    - unrhyw achos a ddatgelir gan yr archwiliad lle mae'r archwilydd o'r farn bod y corff neu ei swyddogion wedi methu â chyrraedd y safonau uchel o gywirdeb ariannol a ddisgwylir gan y rhai sy'n gyfrifol am reoli asedau cyhoeddus;
    - a yw'r arian a roddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn gyson â chyfrifon archwiliedig y corff;
    - gweithdrefnau tendro ar gyfer gwaith, nwyddau a gwasanaethau gan gynnwys cyflogi ymgynghorwyr a chynghorwyr proffesiynol;
    - digonolrwydd gweithdrefnau wrth waredu asedau o werth sylweddol;
    - materion sy'n ddigon pwysig i dynnu sylw Llywodraeth y Cynulliad atynt ond nad ydynt yn cyfiawnhau amodi'r cyfrifon.

Ceisiadau ad hoc am farn archwilwyr

53. Efallai y bydd achlysuron pan fydd cyrff a archwilir yn ceisio barn archwilwyr ar gyfreithlondeb, triniaeth gyfrifyddu neu werth am arian trafodyn cyn dechrau arno. Yn y cyfryw achosion, bydd archwilwyr yn gwneud popeth a allant i helpu, ond ni chânt roi barn ddiffiniol mewn unrhyw achos am:
    - na ddylent beryglu eu hannibyniaeth nac annibyniaeth yr Archwilydd Cyffredinol drwy gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau'r corff a archwilir;
    - nad ydynt yn gynghorwyr ariannol na chyfreithiol i'r corff a archwilir.

54. Mewn ymateb i'r cyfryw geisiadau, ni ellir disgwyl i archwilwyr wneud mwy na nodi p'un a oes unrhyw beth yn y wybodaeth sydd ar gael iddynt wrth iddynt lunio barn sy'n debygol o beri iddynt ystyried argymell i'r Archwilydd Cyffredinol ei fod yn gweithredu mewn ffordd benodol. Ni ddylid ystyried bod unrhyw ymateb gan archwilwyr i'r cyfryw gais yn awgrymu y bydd y trafodyn arfaethedig neu'r camau y bwriedir eu cymryd wedi'u heithrio rhag cael eu herio yn y dyfodol, boed hynny gan archwilwyr neu gan eraill sydd â'r hawl i godi gwrthwynebiad iddo. Y corff a archwilir sy'n gyfrifol am benderfynu p'un a ddylid dechrau ar unrhyw drafodyn.

55. Gall yr Archwilydd Cyffredinol neu ei gynrychiolwyr gymryd rhan fel sylwedyddion yn y gwahanol weithgorau, grwpiau prosiect a grwpiau gorchwyl a sefydlir gan gyrff a archwilir i gynorthwyo trafodaethau cymaint ag y gallant: drwy dynnu sylw at arfer da mewn mannau eraill; drwy nodi diffygion posibl mewn dulliau gweithredu; ac, yn fwy cyffredinol, drwy weithredu fel 'cyfeillion beirniadol'. Fodd bynnag, ni fyddant yn cymryd rhan yn y gwaith o benderfynu ar bolisi ac ni fyddant yn ceisio cymryd rhan yn y gwaith o weithredu polisi yn uniongyrchol.

Hawl i weld gwybodaeth

56. Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr sy'n gweithio ar ei ran, hawliau eang i weld dogfennau a gwybodaeth mewn perthynas â'r archwiliad.
Mae'r cyfryw hawliau yn berthnasol nid yn unig i ddogfennau a gwybodaeth a ddelir gan y corff a'i aelodau a'i staff, ond hefyd i bartneriaid a chontractwyr y corff, p'un a ydynt yn y sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r sector gwirfoddol.

Hawliadau a ffurflenni grant – ardystio

57. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cytuno i wneud trefniadau ardystio yn unol â'r fframwaith a nodir yn y *Datganiad ar wahân o Gyfrifoldebau cyrff sy'n talu grantiau, awdurdodau, yr Archwilydd Cyffredinol ac archwilwyr penodedig mewn perthynas â hawliadau a ffurflenni (*a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 2005 ond y disgwylir iddo gael ei ddiweddaru'n sylweddol yn fuan yng ngoleuni gofynion newydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar gyfer cylch 2007-13 o Gronfeydd Strwythurol). Y corff a archwilir sy'n gyfrifol am sicrhau y cwblheir yr hawliadau a'r ffurflenni grant, eu bod yn gywir ac yn gyflawn. Gall cyrff sy'n talu grantiau fynnu y caiff hawliadau a ffurflenni eu harchwilio'n annibynnol cyn eu derbyn a gallant ofyn i'r Archwilydd Cyffredinol wneud trefniadau i archwilydd ardystio hawliadau a ffurflenni. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol ddyletswydd statudol i wneud trefniadau ardystio os bydd corff perthnasol a archwilir yn gofyn iddo wneud hynny, bydd yn rhoi sylw i'r hyn y mae'n briodol, yn ymarferol ac yn broffesiynol, disgwyl i'r broses ardystio ac i archwilwyr ei wneud cyn cytuno i wneud trefniadau ardystio.

Deddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998

58. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn berson penodedig ar gyfer cael datgeliadau er budd y cyhoedd fel y'u diffinnir gan Ddeddf Diogelu er Budd y Cyhoedd 1998 (Deddf 1998) a gall gynnal ymchwiliadau penodol i'r cyfryw faterion. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn rhoi unrhyw bwerau ymchwilio ychwanegol i'r Archwilydd Cyffredinol. Ceir rhagor o fanylion am y trefniadau a sefydlwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer ymdrin â datgeliadau o dan Ddeddf 1998 yn y daflen wybodaeth ‘A ydych yn pryderu am gamymddwyn yn eich lle gwaith?’ a gyhoeddir gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Archwilio cronfeydd elusennol

59. Mae’r adran hon yn berthnasol i’r elusennau hynny y mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal archwiliad annibynnol ar eu cyfer drwy gytundeb o dan baragraff 18 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
60. Mae ar ymddiriedolwyr cronfeydd elusennol sy'n cael eu harchwilio ddyletswydd i lunio datganiadau cyfrifyddu ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o:
    - sefyllfa'r elusen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol; a'r
    - adnoddau a ddaeth i mewn a'r defnydd a wnaed o'r adnoddau hynny gan yr elusen yn ystod y cyfnod hwnnw.
61. Mae’n rhaid i ymddiriedolwyr sicrhau y caiff y datganiadau cyfrifyddu eu llunio yn unol â’r Datganiad o Arferion a Argymhellir – ‘Cyfrifyddu a Chyflwyno Adroddiadau gan Elusennau’.
62. Dyletswydd yr archwilydd yw rhoi gwybod i'r ymddiriedolwyr a yw’r datganiadau cyfrifyddu yn rhoi darlun cywir a theg, ac a gawsant eu llunio yn unol â Deddf Elusennau 1993 (Deddf 1993) a’r Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau);
63. At hynny mae'n ofynnol i archwilwyr hysbysu'r Comisiwn Elusennau ar unwaith o unrhyw fater y mae ganddynt achos rhesymol dros gredu ei fod, neu'n debygol o fod, o bwys i swyddogaethau'r Comisiwn o dan a8 (pŵer cyffredinol i gychwyn ymchwiliadau) neu a18 (pŵer i weithredu i amddiffyn elusennau) o Ddeddf 1993. Gall y cyfryw faterion ymwneud nid yn unig â gweithgareddau neu faterion yr elusen, ond hefyd ag unrhyw sefydliad neu gorff corfforol sy'n gysylltiedig â’r elusen.
64. Cyfrifir y ffi archwilio ar y sail bod papurau gwaith manwl, a gwybodaeth arall a nodwyd, yn cael eu cyflwyno yn unol ag amserlen y cytunwyd arni. Pan na fydd cyrff a archwilir yn cwrdd ag amserlenni y cytunwyd arnynt a/neu'n cyflwyno dogfennaeth wael fel bod angen gwneud gwaith archwilio ychwanegol, neu y perir oedi i'r archwiliad, bydd archwilwyr yn codi ffioedd ychwanegol i dalu'r costau yr aed iddynt.

65. Mae A43B o Ddeddf 1993 yn rhagnodi y bydd pob un o elusennau GIG Cymru yn destun archwiliad annibynnol. Bydd angen cynnal archwiliad yn achos pob elusen sydd uwchlaw'r trothwyau incwm, fel y nodir yn a43, sef £500,000 neu £100,000 yn achos elusennau ag asedau gros gwerth mwy na £2,800,000. Bydd y rhai sydd islaw'r trothwyau hyn yn destun archwiliad annibynnol, oni fydd yr ymddiriedolwyr yn dewis cael archwiliad. Mae'n rhaid i'r archwilydd ddilyn y gweithdrefnau sy'n ofynnol o dan a43(7)(b) o Ddeddf 1993. Pan gynhelir archwiliad annibynnol, mae cyfrifoldebau'r archwilydd yn fwy cyfyngedig.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk